

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 4ydd 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Maldwyn Jones, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meilir Jones, Eifion Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwenda Morris am 6 mis oherwydd salwch.

i) Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Cytunodd Rita Jones i aros yn y gadair tan y byddai'r Cyngor yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb. Unwaith bydd posib ail gwrdd fel hyn cytunodd Maldwyn Jones y byddai'n cymryd y gadair a gelli'r ethol is-gadeirydd yn ei le.

ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.

Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.

Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.

Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Eifion Davies.

Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iii) Cyfrifon 2020-21.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2020-21 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

iv) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.

Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon.

v) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd.

Cytunwyd i gadw'r ffioedd presennol.

vi) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2021/22.

Cadarnhaodd y clerc eu bod eisoes wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

vii) Adolygu Asedau.

Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws a'r asedau eraill ac adrodd yn nol am eu cyflwr yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd y clerc wneud trefniadau gyda'r cynghorwyr perthnasol i archwilio'r mynwentydd ac adrodd yn nol am unrhyw waith oedd angen ei wneud. Cytunwyd fod angen ail gydiad yn y gwaith o adnewyddu giatiau mynwent Llandderfel a gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r rhai a oedd wedi dangos diddordeb yn y gwaith.

ix) Adolygu Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.